# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei gweithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Fiona Gordon | Adran Etholiadol: | Castell |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Bues yn mynychu cymorthfeydd ward yn rheolaidd. Bu cynghorwyr y castell yn cwrdd yn wythnosol mewn gwahanol leoliadau ar draws y ward, a gwnaeth fy nghydweithwyr a minnau drefnu presenoldeb rhyngom.

Roedd etholwyr hefyd yn cysylltu â mi dros y ffôn neu e-bost, ac roeddwn yn ymdrin â materion megis tai, cynllunio, sbwriel, goleuadau, tywod a materion amgylcheddol eraill, yn ogystal â chyfeirio at bartneriaid ar gyfer materion megis ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roeddwn yn mynychu cyfarfodydd preswylwyr/cymdogaeth/PACT (Llywodraethwyr a Chymunedau Gyda'i Gilydd) yn Sandfields, Brynmelyn, y Marina a Mount Pleasant, ac yn trafod gyda Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (PCSO) yn rheolaidd.

Roeddwn, ac rwyf o hyd yn aelod o'r pwyllgor ar gyfer canolfan gymunedol San Phillip, gan fynychu cyfarfodydd rheolaidd. Cwrddais â phrif swyddogion prosiect Ardal Adnewyddu Cymdogaeth Sandfields er mwyn cadarnhau cynnydd y rhaglen diweddaru tai, a chyda Swyddogion Tai Rhanbarthol er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa tenantiaid y cyngor yn y ward, eiddo gwag, ôl-ddyledion rhent etc. Roeddwn hefyd yn cyfrannu at geisiadau cynllunio, gan gynrychioli etholwyr mewn apeliadau yn erbyn ceisiadau.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 3 | / | 7 | 43 | % |
| Y Cyngor | 17 | / | 17 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 7 | / | 7 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldebau | 5 | / | 5 | 100 | % |
| Fforwm Cyswllt â Myfyrwyr | 1 | / | 3 | 33 | % |
| **OVERALL** | **39** | **/** | **46** | **85** | **%** |
| Cyfarfodydd Craffu: | | | | | |
| Gweithgor Ymchwilio Craffu Anweithgarwch Economaidd | 0 | / | 2 | 0 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Anweithgarwch Economaidd | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynhwysiad Addysg | 4 | / | 6 | 67 | % |
| Bwrdd Gwasanaethau Lleol | 2 | / | 5 | 40 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynnwys y Cyhoedd | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Llywodraethu Ysgolion (Cyn Ymchwiliad) | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Craffu Perfformiad Ysgolion | 11 | / | 12 | 92 | % |
| **OVERALL** | **19** | **/** | **28** | **68** | **%** |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Bues yn gynullydd Panel Craffu Perfformiad Ysgolion, panel parhaol a oedd yn ymdrin â'r rhan fwyaf o waith craffu'r byd addysg. Bu'r panel yn cwrdd yn fisol, gan ystyried materion eang sy'n effeithio ar ysgolion yn ogystal ag astudiaethau achos ysgolion unigol, ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd. Cynrychiolais addysg fel aelod o banel craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ac adroddais yn chwarterol i Bwyllgor y Rhaglen Graffu am y cynllun gwaith. Deilliodd llinell ymholiad cysylltiol pellach o'r panel hwn, ac fe ddes i'n gynullydd yr Ymchwiliad Craffu Llywodraethu Ysgolion. Bues yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Waun Wen ac Ysgol Crug Glas, gan fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd a chyfrannu at yr is-bwyllgorau gan ymdrin â materion disgyblu. Es i gyfarfodydd Cymunedau'n Gyntaf er mwyn monitro cynnydd ar y rhaglen waith hon. Cynrychiolais y cyngor ar y Cyngor Llyfrau gan fynychu cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Chwaraeais ran weithredol wrth ddatblygu'r grŵp Cyfeillion Parc Bryn-y-don fel aelod o'r pwyllgor, gan gyfrannu at ddigwyddiadau yn y parc megis cysylltu â'r ysgol leol a Chyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer digwyddiad sylli ar y sêr a wnaeth ddangos ein llwybr sêr, yn ogystal â chwilota yn y parc a diwrnodau hwyl i'r teulu. Roeddwn yn aelod o bwyllgor y Faner Borffor a oedd yn gweithio tuag at y marc safon, gan roi fy marn fel aelod o ward canol y ddinas, a helpu gyda'r broses paratoi gan gysylltu ag Abertawe Mwy Diogel a Heddlu De Cymru er mwyn cyflawni asesiad prawf o fywyd nos, gan ystyried diogelwch a'r ystod o adloniant sy'n cael ei gynnig gan ganol y ddinas.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Es i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
29/01/2015 - Gwneud Craffu'n Fwy Effeithiol
09/12/2014 - Difenwi
23/07/2014 - Diogelu Data (gan gynnwys rôl y rheolwr data)
23/07/2014 - Rhyddid Gwybodaeth

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwy'n gweithio amser llawn fel athrawes mewn awdurdod cyfagos; oherwydd hyn, nid wyf bob amser yn gallu mynychu cyfarfodydd os y'u cynhelir yn ystod y dydd. Fodd bynnag, mae'n cryfhau fy nealltwriaeth o addysg a materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, ac rwyf yn cyfeirio at hyn wrth graffu ar addysg. Rwy'n chwarae rôl arweiniol yn y maes hwn oherwydd teimlaf ei bod yn elfen hanfodol wrth gyfeirio at eiddo ac effaith amddifadedd yn Abertawe. Mae ein cyfarfodydd craffu bob amser yn ystyriol o'r blaenoriaethau corfforaethol ac yn ystyried sut y maent yn cysylltu â'r rhain, gyda gwella cyrhaeddiad disgyblion a diogelu pobl ddiamddiffyn yn ganolog i'n gwaith, yn ogystal â threchu tlodi.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**
Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 15.03.16 |